



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 469A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a'm helpodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Anne Beegan, Mark Jones, Dave Thomas a John Herniman.

# Cynnwys

<b>Adroddiad cryno</b>	4
<b>Adroddiad manwl</b>	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	8
Adran 1: archwilio cyfrifon	9
Er fy mod wedi rhoi barn diamod bod datganiadau ariannol 2016-17 yn gywir ac yn deg ac wedi eu paratoi'n briodol, cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra ynghyd ag adroddiad o sylwedd, ac wrth wneud hyn tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o broblemau	9
Adran 2: trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	12
Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar waith erbyn hyn i gefnogi cynllunio a monitro arbedion ariannol, ond mae'n wynebu sefyllfa lle ceir diffyg cynyddol ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaw i ben ym mis Mawrth 2018	13
Mae'r trefniadau gweithredu yn effeithiol ar y cyfan ond ceir gwendidau o ran goruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac nid yw'n debygol ychwaith y bydd y rheoliadau diogelu data newydd yn cael eu bodloni mewn pryd	16
Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymateb yn dda i'r materion a godwyd yn fy adroddiad er budd y cyhoedd a amlygodd fethiannau llywodraethu mewn cysylltiad â dyfarnu contractau Adnoddau Dynol penodol a phenodi Cyfarwyddwr	21
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai trefniadau cadarnhaol, ond mae hefyd wedi nodi rhai cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol	22
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	28
Atodiad 2 – ffi archwilio	29
Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol	30

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ganfuwyd gennyf drwy'r gwaith archwilio yr wyf wedi ymgymryd ag ef ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Gwneuthum y gwaith hwnnw i gyflawni fy nyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn cysylltiad ag archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
- 2 Prif bwyslais fy ngwaith archwilio oedd blaenoriaethau strategol a'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd ac sy'n berthnasol i'm dyletswyddau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a baratowyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhagor o fanylion am agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Rydym yn trafod yr adroddiadau hyn â swyddogion ac yn cytuno ar eu cywirdeb ffeithiol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae fy adroddiadau ar gael yn [Atodiad 1](#).
- 3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Chwefror, 2018. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd dilynol a chaiff pob aelod gopi ohono. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd i drefnu bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ehangach. Yn dilyn ystyriaeth y Bwrdd, byddwn ni'n cyhoeddi'r adroddiad ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau canlynol:

## Adran 1: archwilio cyfrifon

- 5 Rwyf wedi rhoi barn ddiamed bod datganiadau ariannol 2016-17 yn gywir ac yn deg ac wedi eu paratoi'n briodol. Cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i reoli gwariant refeniw o fewn ei ddyraniad o adnoddau dros y cyfnod o dair blynedd, gan wario £50.5 miliwn mwy na'i derfyn adnoddau refeniw cronol, sef £2.5.
- 6 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, a esboniodd y dyletswyddau ariannol a roddwyd ar y Bwrdd Iechyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, a'r rhesymau pam na fodlonwyd y dyletswyddau hynny gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.
- 7 Er na nodais unrhyw wendidau materol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, canfuwyd rhai gwendidau pwysig. Tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at y gwendidau hyn a bydd angen gweithredu arnynt ar lefel y rheolwyr. Maent yn

ymwneud â gwella arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol, ac ansawdd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

## Adran 2: trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn y defnydd o adnoddau

- 8 Rwyf wedi archwilio trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i gynnydd o ran gwella materion a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Fy mwriad wrth wneud hyn oedd fy modloni fy hun fod y Bwrdd lechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiadau Archwilio Perfformiad ar feysydd penodol o'r gwasanaethau a ddarperir. Mae fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi eu nodi isod.

Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar waith erbyn hyn i gefnogi cynllunio a monitro arbedion ariannol, ond mae'n wynebu sefyllfa lle ceir diffyg cynyddol ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaw i ben ym mis Mawrth 2018

- 9 Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau cynllunio a monitro arbedion ariannol y Bwrdd lechyd fel a ganlyn:
- mae arbedion ariannol ar gyfer 2017-18 wedi'u rheoli'n dda, ond mae methiannau hanesyddol o ran cyrraedd targedau arbed arian a gorwariant diweddar yn erbyn y terfynau adnoddau yn golygu y rhagwelir y bydd y Bwrdd lechyd mewn sefyllfa o ddiffyg cronol cynyddol o £61 miliwn erbyn mis Mawrth 2018;
  - mae'r gwaith o gynllunio'r arbedion ariannol yn gyson â chylch cynllunio tair blynedd y Bwrdd lechyd a chefnogir y cyflawniad gan wasanaethau corfforaethol, fodd bynnag, mae'n bosibl ailystyried sut y dyrennir targedau er mwyn manteisio ar feysydd lle ceir mwy o gyfleoedd am arbedion ariannol; ac
  - mae trefniadau cadarn o ran craffu a monitro arbedion ariannol ar lefel y Bwrdd, ar lefel pwyllgor ac ar lefel weithredol, yn ogystal â dulliau da o ddysgu gwersi.

Mae'r trefniadau gweithredu yn effeithiol ar y cyfan ond ceir gwendidau o ran goruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac nid yw'n debygol ychwaith y bydd y rheoliadau diogelu data newydd yn cael eu bodloni mewn pryd

- 10 Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd lechyd fel a ganlyn:
- mae cynllunio strategol yn effeithiol ar y cyfan ac yn gynyddol gydgysylltiedig ar draws y sefydliad, fodd bynnag, mae craffu ar sut y cyflawnir y gwaith yn

parhau i fod yn ddiffygiol ar lefel Bwrdd a phwyllgor er bod monitro manwl yn digwydd ar lefel weithredol;

- mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn parhau i aeddfedu ac mae camau yn cael eu cymryd i wella cydweithio ar draws y sefydliad, er bod pryderon o ran capasiti llywodraethu corfforaethol o hyd;
- nid yw'r Bwrdd na rhai o'i bwyllgorau yn darparu goruchwyliaeth ddigon trylwyr a chyson, yn rhannol oherwydd trosiant yn ei aelodau, a hyd nes y bydd y ddau bwyllgor newydd wedi'u hymsefydlu'n llwyr, ceir risgiau o ran sicrwydd ar berfformiad a chynllunio;
- mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen gwella'r prosesau rheoli risg ac mae'n wrthi'n adolygu prosesau rheoli risg ar lefel weithredol a chorfforaethol, fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol bydd hon yn broses araf;
- nid yw trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi eu datblygu yn ddigonol o hyd yn y Bwrdd lechyd er mwyn gweithredu y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn effeithiol erbyn mis Mai 2018;
- mae'r rheoli perfformiad gweithredol yn gadarn ac yn gynhwysfawr, ond mae goruchwyllo gan y Bwrdd a phwyllgorau yn aneffeithiol hyd yma;
- nid yw'r Bwrdd lechyd wedi defnyddio'r Fenter Twyll Genedlaethol yn effeithiol i ganfod twyll a gordaliadau hyd yn hyn; ac
- mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd amrywiol yn erbyn fy argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ac erys angen i wella ei drefniadau ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn ein gwaith archwilio arall.

### Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymateb yn dda i'r materion a godwyd yn fy adroddiad er budd y cyhoedd a amlygodd fethiannau llywodraethu mewn cysylltiad â dyfarnu contractau Adnoddau Dynol penodol a phenodi Cyfarwyddwr

- 11 Am y tro cyntaf mewn perthynas â Bwrdd lechyd, defnyddiais fy mhwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Paragraff 19 o Adran 8) i adrodd yn gyhoeddus ar wendidau sylfaenol a nodwyd gennyf yn nhrefniadau llywodraethu a phenderfynu y Bwrdd lechyd.
- 12 Amlygodd fy adroddiad er budd y cyhoedd fethiannau llywodraethu sylweddol mewn perthynas â dyfarnu tri contract ar gyfer gwasanaethau ymgynghori Adnoddau Dynol ac yn dilyn hynny, penodi Cyfarwyddwr. Ar ôl i mi gyhoeddi'r adroddiad, ymatebodd y Bwrdd lechyd yn gadarnhaol gan nodi camau gweithredu clir ar gyfer gwella. Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn goruchwyllo gweithrediad y camau gweithredu, a gwneir cynnydd da yn hyn o beth.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai trefniadau cadarnhaol, ond mae hefyd wedi nodi rhai cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

- 13 Mae canfyddiadau allweddol fy ngwaith archwilio perfformiad fel a ganlyn:
- mae gweithlu ac ystadau yn cefnogi nodau'r Bwrdd Iechyd yn gynyddol, er bod gwybodeg yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny;
  - er bod y gwasanaeth radioleg yn cael ei reoli'n dda ar lefel weithredol, ceir risg o ran darparu'r gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol oherwydd diffyg cynllunio strategol a busnes, galw cynyddol, ôl-groniad o adroddiadau, cyfarpar sy'n heneiddio, a phroblemau wrth recriwtio a chadw aelodau staff;
  - mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau ond mae'r perfformiad yn amrywiol ac erys risgiau mewn perthynas â chynaliadwyedd y gwasanaeth;
  - o ran trefniadau cynllunio rhyddhau, mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gwella cadarn, trefniadau rheoli perfformiad cryf ac mae'r perfformiad yn gwella ar y cyfan, ond mae lle i wella hyfforddiant aelodau staff ar wardiau a'r ymwybyddiaeth o bolisiâu a gwasanaethau cymunedol;
  - nid yw'r Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fonitro pob un o'm hargymhellion blaenorol yn effeithiol, fodd bynnag mae fy ngwaith dilynol wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion ar gyfer rheoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol;
  - mae trefniadau comisiynu cydweithredol wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig ar gyfer y gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae'r trefniadau sydd wrthi'n ymsefydlu yn mynnu mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid;
  - nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.
- 14 Hoffem ddiolch i staff y Bwrdd Iechyd a'i aelodau am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 15 Mae'r Adroddiad hwn ar Archwiliad Blynyddol 2017 i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi'r canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2017.
- 16 Rwy'n gwneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a osodwyd yn Neddf 2004<sup>1</sup>. Mae'r ddeddf honno yn mynnu fy mod yn:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - fy modloni fy hun fod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddo wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
  - fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
- 17 O ran (c), rwyf wedi ceisio sicrwydd neu fel arall gan y ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed yn rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a oedd yn ymchwilio i'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
  - edrych ar archwiliadau o berfformiad a wnaed yn y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith a wnaed gan gyrff adolygu allanol eraill, pan eu bod yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
  - gwaith arall megis ymarferion paru data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ac ardystio hawliadau a datganiadau.
- 18 Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn grynodedb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Ceir rhestr o'r adroddiadau hyn yn [Atodiad 1](#).
- 19 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- adran 1: archwilio cyfrifon
  - adran 2: trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau
- 20 Mae [Atodiad 2](#) yn cyflwyno'r amcangyfrifon diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu costau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.

<sup>1</sup> Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004



- 21 Yn olaf, mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2017 a sut yr ymdriniwyd â hwy drwy'r gwaith archwilio.

## Adran 1: archwilio cyfrifon

- 22 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Y datganiadau hyn yw'r dulliau y mae'r sefydliad yn eu defnyddio i ddangos ei berfformiad ariannol ac i nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen allweddol o ddangos y gofelir am arian cyhoeddus yn briodol.
- 23 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn adlewyrchiad cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt wedi eu paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill, ac a ydynt yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno o'r adroddiad cydnabyddiaeth a gaiff ei harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol;
  - a yw'r wybodaeth arall a ddarperir gyda'r datganiadau ariannol (fel arfer yr adroddiad blynyddol) yn gyson â hwy;
  - rheoleidd-dra o ran gwariant ac incwm yn y datganiadau ariannol.
- 24 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA).

**Er fy mod wedi rhoi barn ddiamod bod datganiadau ariannol 2016-17 yn gywir ac yn deg ac wedi eu paratoi'n briodol, cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra ynghyd ag adroddiad o sylwedd, ac wrth wneud hyn tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o broblemau**

**Roedd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi yn briodol, yn faterol gywir, ac wedi'u cyflwyno i mi ar amser, ond mae lle i wella**

- 25 Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft ar y dyddiad terfynol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 28 Ebrill 2017. Roedd tystiolaeth glir bod y datganiadau ariannol wedi bod yn destun gwiriadau sicrwydd ansawdd gan swyddogion perthnasol y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Archwilio, cyn eu cyflwyno i'w harchwilio.
- 26 Ni ddeuthum o hyd i unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod y gwaith archwilio. Cefais wybodaeth mewn modd amserol, ac roedd swyddogion yn barod eu

cymorth ac ni chefais fy nghyfyngu o gwbl yn fy ngwaith. Paratôdd y Bwrdd Iechyd gynllun cau i lawr manwl ar gyfer 2016-17, a wnaeth ymgorffori fy ngofynion archwilio. Roedd y dull hwn o gymorth wrth baratoi ac archwilio'r datganiadau ariannol erbyn y dyddiad targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i nodi meysydd y gellir eu gwella ymhellach yn 2017-18.

- 27 Mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi gyflwyno fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Swyddog Ymgysylltu Arweiniol ar gyfer Archwiliadau Ariannol ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2017. Cymeradwyodd y Bwrdd y datganiadau ariannol a archwiliwyd ar y diwrnod hwnnw, ac yn dilyn hyn fe'u hardystiais ar 7 Mehefin 2017.
- 28 Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio, gan mai hwy sy'n gyfrifol am lywodraethu.

#### Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r Archwilwyr
Darpariaeth ar gyfer costau gofal iechyd parhaus	Mae datganiadau ariannol 2016-17 yn datgelu bod mwy na 204 o hawliadau gofal iechyd parhaus 'cam 3' wedi dod i law'r Bwrdd Iechyd, nad yw'r broses o'u hasesu wedi'i chwblhau eto (cafwyd 240 o achosion o'r fath y llynedd). Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn parhau i adolygu'r achosion hyn ar ran holl sefydliadau GIG Cymru, ond mae'r cynnydd yn araf. Gallai'r hawliadau arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd ac rydym yn gynyddol bryderus bod yna lawer o achosion o hyd nad ydynt wedi'u hadolygu'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer asesiad o gostau posibl a thebygol.
Cadw cofnodion o asedau gosodiadau a chyfarpar	Roedd gwaith archwilio blaenorol wedi amlygu achlysuron pan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gyson yn ei ddefnydd o'i broses ar gyfer labelu asedau sy'n gyfarpar gyda chyfeirnod adnabod unigryw. Canfu'r archwiliad gamgymeriadau tebyg eleni, gan atgyfnerthu fy marn bod proses cofnodi asedau y Bwrdd Iechyd yn wan.

Mater	Sylwadau'r Archwilwyr
Croniadau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau nad ydynt wedi eu hanfonebu eto	Mae gwaith archwilio blaenorol wedi amlygu bod llawer o archebion prynu'r Bwrdd lechyd yn hen a'i bod yn debygol iawn nad ydynt yn ddilys. Ar gyfer 2015-16, gwneuthum amcangyfrif fod oddeutu £1.7 miliwn o'r cronladau hyn yn dyddio'n ôl fwy na blwyddyn. Canfûm fod y Bwrdd lechyd, mewn ymateb i'm hargymhellion, wedi cryfhau ei adolygiad o groniadau ac o wneud hynny, wedi canslo nifer fawr ohonynt. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith a wnaed gan y Bwrdd lechyd, canfûm fod rhyw £1.476 miliwn o'r cronladau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd cyn 31 Mawrth 2016 (h.y. yn dyddio'n ôl fwy na blwyddyn).
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Mae gwaith archwilio blaenorol wedi amlygu pryderon ynghylch ansawdd gwael y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) a gyflwynwyd ar gyfer fy archwiliad, yr oedd yn rhaid gwneud nifer o ddiwygiadau iddo. Eleni, canfûm fod y Bwrdd lechyd wedi ceisio gwella'r paratodau ar gyfer ei AGS, ond dechreuodd y broses o'i baratoi yn eithaf hwyr ac o ganlyniad, cyflwynwyd fersiynau anghyflawn o'r AGS i'w harchwilio. Fe welwyd gwelliannau yn ystod yr archwiliad o ganlyniad i gyfraniad a goruchwyliaeth Pennaeth Llywodraethu newydd y Bwrdd lechyd.
Adroddiadau a grëwyd gan gyfrifylfr Oracle	Fel yr adroddwyd y flwyddyn flaenorol, mae'r system cyfrifon taladwy awtomataidd yn parhau i greu cofnodion ffug yn y cyfrifylfr, sy'n chwyddo'r postiadau debyd a chredyd yn sylweddol.
Datgeliadau partiön perthnasol	Mae'n ofynnol gwneud datganiadau parti perthnasol yn flynyddol gan bob aelod o'r Bwrdd, er mwyn llywio'r datgeliadau sy'n ofynnol yn y datganiadau ariannol. Er gwaethaf ceisiadau niferus y Bwrdd lechyd, ni lwyddodd i gael datganiad gan ei Brif Weithredwr blaenorol, a adawodd y Bwrdd lechyd ym mis Tachwedd 2016. Yn absenoldeb datganiad o'r fath, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y datganiadau wedi eu llenwi, gan gynnwys ar gyfer unrhyw uwch aelod o staff sy'n gadael yn ystod y flwyddyn.

- 29 Yn rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais hefyd adolygiad o ddatganiad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth o ran cyfuno partiön i gcontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2017 a bod y datganiad wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.
- 30 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol 2016-17 wedi'i gwblhau, a chyflwynwyd fy nghanfyddiadau i swyddogion. Ystyriwyd y datganiadau ariannol wedi'u harchwilio gan ymddiriedolwyr y Cronfeydd Elusennol ar 25 Ionawr 2018 a chawsant eu hardystio ar 26 Ionawr.

**Torrodd y Bwrdd lechyd ei derfyn adnoddau refeniw ar gyfer y cyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2017, a arweiniodd at fy marn amodol o ran rheoleidd-dra**

- 31 Torrodd y Bwrdd lechyd ei derfyn adnoddau refeniw drwy wario £50.5 miliwn yn fwy na'r £2.5 biliwn yr awdurdodwyd iddo wario yn ystod y cyfnod hwnnw o dair blynedd o 2014-15 i 2016-17. Mae'r gwariant ychwanegol hwn o £50.5 miliwn gyfwerth â gwariant afreolaidd. Bu'n rhaid i mi felly roi barn amodol ar reoleidd-dra.
- 32 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd lechyd, a esboniodd y dyletswyddau ariannol a roddir ar y Bwrdd lechyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, ynghyd â'r rhesymau pam na lwyddodd y Bwrdd lechyd i gyflawni'r dyletswyddau hynny ar gyfer 2016-17.
- 33 Yn ystod yr un cyfnod tair blynedd, ni thorrodd y Bwrdd lechyd ei derfyn adnoddau cyfalaf o £167.1 miliwn. Cyflawnodd y Bwrdd lechyd danwariant o ryw £217,000 yn erbyn y terfyn hwn.

**Ni nodais unrhyw wendidau materol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd lechyd sy'n berthnasol i'm gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, ond canfuwyd rhai gwendidau pwysig a bydd angen gweithredu arnynt ar lefel y rheolwyr**

- 34 Cynhaliais adolygiad o reolaethau mewnol y Bwrdd lechyd a oedd yn fy marn i yn berthnasol i'r archwiliad, er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau materol yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, nid diben fy ystyriaeth oedd mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithredol cyffredinol y rheolaethau mewnol. Oherwydd hynny, ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd lechyd, ac rwyf wedi nodi fy mhrif arsylwadau a'm hargymhellion (a dderbyniwyd gan y Bwrdd lechyd) yn **Arddangosyn 1** uchod.
- 35 Ar ben yr argymhellion yn **Arddangosyn 1**, mae fy Swyddog Ymgysylltu Arweiniol wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar gyfer swyddogion cyllid y Bwrdd lechyd, sy'n nodi'r problemau nad ydynt mor sylweddol sy'n codi. Byddaf yn ystyried y cynnydd a wneir gan y Bwrdd lechyd wrth weithredu'r argymhellion yn rhan o archwiliad y flwyddyn nesaf.

## **Adran 2: trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn y defnydd o adnoddau**

- 36 Mae'n ofyniad statudol i mi fy modloni fy hun fod gan gyrrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd lechyd yn ystod y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau cynllunio a chyflawni arbedion ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys ei gyfraniad at gyflawni cydbwysedd ariannol;
  - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion asesiad strwythuredig y llynedd;
  - asesu'r defnydd o baru data sy'n rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI);
  - defnydd penodol o waith adnoddau ar wasanaethau radiolog, gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau a chynllunio rhyddhau cleifion; ac
  - asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud i weithredu ar argymhellion a gododd mewn gwaith archwilio blaenorol ar reoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.
- 37 Rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad sydd wedi edrych ar drefniadau llywodraethu o fewn y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, yn ogystal â'r trefniadau cydweithredu rhwng timau iechyd y cyhoedd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 38 Mae prif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeiriwyd ato uchod wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith erbyn hyn i gefnogi cynllunio a monitro arbedion ariannol, ond mae'n wynebu sefyllfa lle ceir diffyg cynyddol ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaw i ben ym mis Mawrth 2018

- 39 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae fy ngwaith yn 2017 ar yr asesiad strwythuredig wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Rwyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu ar argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol sy'n berthnasol i reoli ariannol. Rwy'n crynhoi fy nghanfyddiadau isod.

## Mae arbedion ariannol ar gyfer 2017-18 wedi'u rheoli'n dda, ond mae methiannau hanesyddol o ran cyrraedd targedau arbed arian a gorwariant diweddar yn erbyn y terfynau adnoddau yn golygu y rhagwelir y bydd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa o ddiffyg cronol cynyddol o £61 miliwn erbyn mis Mawrth 2018

- 40 Yn hanesyddol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau arbed arian uchelgeisiol. Er ei fod wedi cyflawni lefelau sylweddol o arbedion ariannol, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei dargedau blynyddol ac mae lefelau'r targedau wedi

gostwng yn raddol dros amser. Ers 2015 mae'r targed ar gyfer arbedion ariannol wedi dod yn fwy realistig, ac yn 2016-17 yn benodol, er nad oedd wedi nodi'r holl gynlluniau arbed arian a oedd yn ofynnol ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y Bwrdd lechyd bron â chyrraedd ei darged o arbed £26 miliwn.

- 41 Ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2014-17, fodd bynnag, methodd y Bwrdd lechyd â chyflawni ei ddyletswydd o wario o fewn ei ddyraniad ariannol, gan wario £50.5 miliwn yn fwy na'r ddyraniad. Ni chymeradwywyd cynllun integredig tymor canolig (IMTP) tair blynedd y Bwrdd lechyd gan Lywodraeth Cymru ac ar gyfer 2017-18 mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn gweithio yn unol â chynllun gweithredu blynyddol.
- 42 Yn 2016-17, rhoddodd y Bwrdd lechyd darged arbedion dirprwyedig o 3% i bob un o'i naw o fyrddau clinigol a gwasanaethau, ond dim ond dau ohonynt a lwyddodd i gyrraedd y targed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r gyfran o arbedion cylchol yn uchel ond yn 2016-17, gostyngodd y ganran i 50% o'r holl arbedion. Roedd meysydd nad ydynt yn ymwneud â thâl a rheoli meddyginiaethau yn cyfrif am fwy na hanner y targedau arbed.
- 43 Yn 2017-18, targed y Bwrdd lechyd ar gyfer arbed arian yw £35 miliwn, a diffyg blynyddol cynlluniedig o £30.9 miliwn. Mae'r diffyg cynlluniedig hwn yn golygu sefyllfa ychydig yn waeth na'r diffyg a nodwyd ar gyfer 2016-17. Ar fis chwech, roedd y Bwrdd lechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged o ran arbedion, a'r sefyllfa diffyg cynlluniedig canol blwyddyn. Oherwydd gwariant hanesyddol fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd y diffyg treigl tair blynedd ar gyfer 2015-18 yn £61 miliwn, sydd £10 miliwn yn waeth na'r diffyg cronol ar 31 Mawrth 2017. Er y bu gwelliannau wrth gyflawni yn erbyn targedau arbed arian, ynghyd â'r sefyllfa ariannol gyffredinol, nid yw lefel yr arbedion a nodir ac a gyflawni wedi hynny yn ddigon i leihau diffyg cronol sy'n cynyddu.

**Mae'r gwaith o gynllunio'r arbedion ariannol yn gyson â chylch cynllunio tair blynedd y Bwrdd lechyd a chefnogir y cyflawniad gan wasanaethau corfforaethol, fodd bynnag, mae'n bosibl ailystyried sut y dyrennir targedau er mwyn manteisio ar feysydd lle ceir mwy o gyfleoedd am arbedion ariannol**

- 44 Mae gan y Bwrdd lechyd ddull o'r brig i lawr ar gyfer cynllunio arbedion ariannol, sy'n golygu bod y timau cyllid corfforaethol yn gosod targedau ar draws y Bwrdd lechyd, a gymhwysir yn gyfartal ar draws y byrddau clinigol a'r byrddau gwasanaethau. Mae meysydd gwasanaethau yn gyfrifol am nodi cynlluniau arbed arian unigol, a'u cynllunio a'u cyflawni drwy eu cynlluniau gwella costau.
- 45 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd ei raglen 'troi'r gromlin' yn hwyr yn 2016-17. Mae hyn wedi sicrhau llwyfan i fynd i'r afael â materion ariannol y Bwrdd lechyd. Er bod y rhaglen hon yn cael ei hadolygu, mae'r Bwrdd lechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ariannol drwy gyflwyno Pwyllgor Cyllid newydd a datblygu system Rhaglen Gwella Costau (CIP). Dull cynllunio a monitro yw'r system hon a ddefnyddir i fonitro cynnydd.

- 46 Mae cynllunio arbedion ariannol yn gyson â chylch cynllunio IMTP y Bwrdd Iechyd; ac mae'n ofynnol i fyrddau clinigol a gwasanaethau ddatblygu eu cynlluniau arbedion ariannol dros gyfnod o dair blynedd. Ceir dull cyfradd safonol o arbed arian ac mae perfformiad y CIP yn awgrymu bod y targedau arbed arian yn gyraeddadwy. Fodd bynnag, mae'r dull cyfradd safonol yn golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i nodi meysydd sydd â mwy o botensial i wneud mwy o arbedion, ac mae'n bosibl nawr i'r Bwrdd Iechyd bennu targedau uwch i feysydd sydd â mwy o botensial i wneud mwy o arbedion.
- 47 Mae swyddogaethau cyllid a gweithlu wedi'u hintegreiddio o fewn y byrddau clinigol a gwasanaethau, ac maent yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r IMTP a'r cynlluniau arbed arian. Mae swyddogaethau cynorthwyol eraill megis gwybodeg hefyd yn cefnogi'r byrddau clinigol a gwasanaethau. Mae gan y Bwrdd Iechyd bum thema trawsbynciol, a gefnogir gan Swyddfa'r Rheolwr Rhaglen. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu Bwrdd Trawsnewid yn ddiweddar, sy'n cydnabod bod angen newid gwasanaethau er mwyn gwneud arbedion yn y tymor hwy.

**Mae trefniadau cadarn o ran craffu a monitro arbedion ariannol ar lefel y Bwrdd, ar lefel pwyllgor ac ar lefel weithredol, yn ogystal â dulliau da o ddysgu gwersi**

- 48 Mae gan y Bwrdd Iechyd Bwyllgor Cyllid sy'n cyfarfod bob mis. Mae'r pwyllgor hwn yn cael adroddiad manwl ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyflawni yn erbyn targedau arbedion gan y bwrdd clinigol a gwasanaethau. Cyflwynir yr adroddiad hwn hefyd i'r Bwrdd, sy'n cyfarfod bob yn ail fis.
- 49 Mae cyflawni arbedion ar lefel bwrdd clinigol a gwasanaethau yn cael ei fonitro'n wythnosol a thrafodir materion mewn adolygiadau perfformiad ar lefel weithredol bob mis. Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r adolygiadau hyn, ac maent yn cynnwys pob cyfarwyddwr gweithredol. Mae trefniadau uwchgyfeirio ar gael pe na byddai cyflawniad y CIP ar gyfer bwrdd clinigol neu fwrdd gwasanaethau ar y trywydd iawn. Mae Cyfarwyddiaethau hefyd yn monitro eu cynlluniau arbed gan adrodd i gyfarfodydd byrddau clinigol a byrddau gwasanaethau. Mae themâu trawsbynciol yn cael eu monitro drwy'r grŵp llywio trawsbynciol.
- 50 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o fecanweithiau ar lefelau gweithredol amrywiol i rannu syniadau a dysgu gwersi. Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd yn dda hefyd ar fforymau ar lefel cenedlaethol.

## Mae'r trefniadau gweithredu yn effeithiol ar y cyfan ond ceir gwendidau o ran goruchwyliaeth a sicrwydd y Bwrdd, ac nid yw'n debygol ychwaith y bydd y rheoliadau diogelu data newydd yn cael eu bodloni mewn pryd

51 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd lechyd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion asesu strwythuredig a materion gwelliant blaenorol. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u nodi isod.

## Mae cynllunio strategol yn effeithiol ar y cyfan ac yn gynyddol gydgysylltiedig ar draws y sefydliad, fodd bynnag, mae craffu ar sut y cyflawnir y gwaith yn parhau i fod yn ddiffygiol ar lefel Bwrdd a phwyllgor er bod monitro manwl yn digwydd ar lefel weithredol

- 52 Methodd Y Bwrdd lechyd yn ei ddyletswydd statudol i fod â chynllun tymor canolig integredig cymeradwy dros dair blynedd, ac am yr ail flwyddyn yn olynol, mae wedi bod yn gweithio i gynllun gweithredu blynyddol. Roedd drafftiau cychwynnol o gynllun 2017-18 yn cynnwys sefyllfa o fwy o ddiffyg wedi'i gynllunio. Cytunodd y Bwrdd ar gynllun 2017-18 yn derfynol ym mis Mai 2017 gyda sefyllfa o ddiffyg wedi'i gynllunio diwygiedig o £30.9 miliwn.
- 53 Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â chynllunio a datblygu IMTP, ond ceir bylchau o ran craffu ar lefel Bwrdd a phwyllgor o ran cyflawni'r cynllun. Dilëwyd y pwyllgor a oedd yn gyfrifol am graffu ar gyflawni ym mis Mai 2017, ac mae'r Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu newydd yn dal yn ei ddyddiau cynnar. Serch hynny, mae'r cysylltiadau rhwng y cynllun a sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd yn gwella'n gynyddol, ac mae'r modd y mae'r cynllun yn cael ei gyflawni yn cael ei fonitro'n gadarn ar lefel weithredu drwy adolygiadau perfformiad ar lefel weithredol.

## Mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn parhau i aeddfedu ac mae camau yn cael eu cymryd i wella cydweithio ar draws y sefydliad, er bod pryderon o ran capasiti llywodraethu corfforaethol o hyd

- 54 Yn ystod y flwyddyn ni wnaeth y Bwrdd lechyd unrhyw newidiadau sylfaenol i'w strwythur sefydliadol, er bod tîm gweithredol llawn wedi'i sefydlu erbyn hyn. Ymunodd y Prif Weithredwr newydd ym mis Gorffennaf 2017 a Chyfarwyddwr newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn dilyn ym mis Hydref. Ar adeg ein gwaith maes asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd lechyd ar fin penodi Prif Swyddog Gweithredu parhaol.
- 55 I gydnabod y ffaith y gall strwythur y bwrdd clinigol hyrwyddo gweithio heb ar sail ar wahân, mae'r tîm gweithredol wedi cymryd camau i hyrwyddo gweithio traws-sefydliadol cynyddol, yn arbennig drwy'r adolygiadau perfformiad ar lefel weithredol. Mae gwasanaethau Corfforaethol yn gweithio ar draws y byrddau clinigol, gydag adnoddau ariannol ac adnoddau gweithlu wedi eu hymwreiddio ym



mhob un o'r byrddau clinigol. Serch hynny, nid yw swyddogaethau cymorth eraill wedi eu hymwreiddio i'r fath raddau er bod gweithio integredig yn gwella.

- 56 Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn chwarae rhan weithredol o ran darparu her a chefnogaeth i'r tîm gweithredol a'r strwythur sefydliadol ehangach. Er i Bennaeth Llywodraethu Corfforaethol newydd gael ei benodi ym mis Ebrill 2017, erys ein pryderon ynghylch capasiti'r tîm.

**Nid yw'r Bwrdd na rhai o'i bwyllgorau yn darparu goruchwyliaeth ddigon trylwyr a chyson, yn rhannol oherwydd trosiant yn ei aelodau, a hyd nes y bydd y ddau bwyllgor newydd wedi'u hymsefydlu'n llwyr, ceir risgiau o ran sicrwydd ar berfformiad a chynllunio**

- 57 Gwelodd Y Bwrdd lechyd newidiadau sylweddol i aelodau annibynnol yn ystod 2017. Penodwyd saith aelod annibynnol newydd, ond roedd dau aelod annibynnol arall i fod i adael ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Mae'r lefel hon o drosiant wedi achosi risgiau i ddilyniant y Bwrdd, er bod yr aelodau annibynnol a oedd yn gadael wedi darparu datganiadau etifeddiaeth a chefnogaeth bellach i sicrhau pontio llyfn. Dim ond un o'r saith aelod annibynnol newydd sydd wedi cael profiad ar fwrdd GIG, ac mae hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar y Bwrdd lechyd i sicrhau bod yr aelodau annibynnol newydd yn deall eu swyddogaeth, drwy ddefnyddio rhaglen datblygu'r Bwrdd.
- 58 Mae ein harsylwadau o'r Bwrdd a rhai o'i bwyllgorau <sup>2</sup> yn dangos bod y lefel o graffu a herio yn amrywio, fel ag y mae gweinyddu pwyllgorau. Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ymhlith y pwyllgorau sy'n cael eu rhedeg yn well. Cafodd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad blaenorol ei ddileu ym mis Mai 2017, a sefydlwyd dau bwyllgor newydd. Serch hynny, dau gyfarfod yn unig y mae'r rhain (Y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu a'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni) wedi eu cynnal ac maent yn dal i fod yn eu dyddiau cynnar. Mae'r oedi rhwng dileu'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad a sefydlu'r pwyllgorau newydd wedi cyflwyno risgiau yn ymwneud â bylchau yn sicrwydd y Bwrdd.
- 59 Mae papurau a chofnodion pwyllgorau wedi'u hysgrifennu'n dda yn gyffredinol. Serch hynny, mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi cydnabod bod angen gwella disgyblaeth ynghylch maint a safon papurau er mwyn cynorthwyo adolygu gwybodaeth a chraffu mwy effeithiol.
- 60 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen gwella'r prosesau rheoli risg ac mae'n wrthi'n adolygu prosesau rheoli risg ar lefel weithredol a chorfforaethol, fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol bydd hon yn broses araf.

<sup>2</sup> Yn rhan o'n gwaith ar yr asesiad strwythurol, gwnaethom arsylwi ar y Bwrdd a'r pwyllgorau a ganlyn – y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Ansawdd Diogelwch a Phrofiad, y Pwyllgor Strategaeth ac Ymgysylltu, y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni a'r Pwyllgor Archwilio

- 61 Mae Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol (CRAF) cyfunol y Bwrdd lechyd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae CRAF wedi ei sefydlu ers pedair blynedd, ond mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen gwella'r broses rheoli risgiau i roi gwell sicrwydd i'r Bwrdd.
- 62 Mae'r CRAF yn ddogfen fyw ac wedi ei llunio yn eglur ond nid yw risgiau wedi eu cyfochri â'r amcanion corfforaethol eto. Mae diffyg eglurder o ran y risgiau ac nid ydynt yn lleihau o ganlyniad i gamau lliniaru, neilltuwyd nifer ohonynt i'r pwyllgor PPP blaenorol am rai misoedd ar ôl iddo gael ei ddileu.
- 63 Cynhaliwyd gweithdy rheoli risgiau ym mis Mai 2017 ac mae camau ar gyfer gwella eisoes wedi dechrau, gan gynnwys gwell adrodd am risgiau. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu lansio fersiwn newydd o CRAF yn 2018 ochr yn ochr ag adolygiad ehangach o'r polisi rheoli risgiau. Mae hwn yn ddarn o waith sylweddol ond mae'r gallu i ymgymryd ag ef yn gyfyngedig.

#### Nid yw trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi eu datblygu yn ddigonol o hyd yn y Bwrdd lechyd er mwyn gweithredu y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn effeithiol erbyn mis Mai 2018

- 64 Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd o ran rhoi sylw i argymhellion adolygiad 'sicrwydd cyfyngedig' Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond mae'r mwyafrif o gamau yn dal i barhau er bod yn rhaid ymdrin â'r rhain cyn i'r GDPR ddod i rym yn 2018.
- 65 Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod y newidiadau deddfwriaethol a pha gamau eraill sydd eu hangen i fod yn barod ar gyfer y GDPR ond araf fu'r cynnydd o ran mynd i'r afael a'r camau hyn. Mae cydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth ymhell yn is na'r targed o 85% ac mae'r amser ymateb i geisiadau am wybodaeth yn araf. Mae angen hefyd cyfochri strategaeth llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd lechyd â'r strategaeth ddigidol genedlaethol. Mae gan y Bwrdd lechyd dîm llywodraethu gwybodaeth bychan a bydd bodloni'r GDPR yn effeithiol o fewn yr amserlen yn her iddo.

#### Mae rheoli perfformiad gweithredol yn gadarn ac yn gynhwysfawr, ond mae goruchwyllo gan y Bwrdd a phwyllgorau yn aneffeithiol hyd yma

- 66 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau cryf ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r tîm gweithredol yn dwyn holl fyrddau clinigol a byrddau gwasanaethau i gyfrif drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad rheolaidd sydd i bwrpas ac wedi eu trefnu'n dda. Yn ogystal â dwyn i gyfrif mae'r cyfarfodydd adolygu yn cynnig cefnogaeth ac anogaeth ac yn cynnig cyfleoedd i drafod materion cenedlaethol a gwaith ar draws y bwrdd. Cefnogir y cyfarfodydd adolygu perfformiad gan ddangosfyrddau perfformiad cynhwysfawr.
- 67 Ar lefel Bwrdd y Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd sy'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd ynglŷn â pherfformiad a gweithlu. Serch hynny, mae'r wybodaeth a adroddwyd i'r pwyllgor yn llai manwl na'r wybodaeth a adroddwyd i'r Bwrdd, sy'n

canolbwyntio ar dargedau â blaenoriaeth neu feysydd perfformio sydd wedi dirywio. Dylai fod mwy o wybodaeth ar gael i'r pwyllgor i gefnogi ei swyddogaeth o graffu ac i wella ei effeithiolrwydd wrth ddarparu sicrwydd i'r bwrdd.

### Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r Fenter Twyll Genedlaethol yn effeithiol i ganfod twyll a gordaliadau hyd yn hyn

- 68 Ymarferiad paru data yw'r NFI sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy gydweddu data ar draws cyrff a systemau i helpu cyrff cyhoeddus adnabod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n arf hynod o effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac i helpu cyrff gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.
- 69 Ym mis Hydref 2016 cyflwynwyd data i ymarfer cydweddu presennol yr NFI gan gyrff a oedd yn cymryd rhan. Rhyddhawyd y canlyniadau gennym i gyrff a oedd yn cymryd rhan ym mis Ionawr 2017. Mae'n orfodol i'r Bwrdd Iechyd gymryd rhan yn yr NFI.
- 70 Yn Ionawr 2017 derbyniodd y Bwrdd Iechyd 9,980 o enghreifftiau o gydweddu data drwy ap gwe yr NFI. Mae cydweddu data yn tynnu sylw at anghysondebau ac mae eu hadolygu yn helpu i ganfod twyll a chamgymeriadau. Er na fyddem yn disgwyl i gyrff adolygu'r holl enghreifftiau o gydweddu data, mae rhai ohonynt yn cael eu categorio fel 'enghreifftiau o gydweddu a argymhellir'. Mae'r rhain yn rhai a ystyrir yn rhai â risg uchel ac felly argymhellir eu bod yn cael eu hadolygu'n gynnar. Nodwyd 851 o 'enghreifftiau o gydweddu a argymhellir' gennym ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- 71 Mae ap gwe yr NFI, sy'n cofnodi canfyddiadau arolwg y Bwrdd Iechyd o'i waith cydweddu data, yn dangos mai dim ond 11 o enghreifftiau cydweddu data a oedd wedi eu hadolygu gan y Bwrdd Iechyd erbyn 20 Tachwedd 2017. Rwyf yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi profi oedi wrth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru geisio nodi cyswllt addas i arwain ar enghreifftiau o gydweddu credydwy'r sy'n cyfrif am y mwyafrif o enghreifftiau cydweddu'r NFI. Rwyf hefyd yn cydnabod ei bod hi'n fwriad gan y gwasanaeth atal twyll lleol i adolygu gweddill yr enghreifftiau o gydweddu yn ystod chwarter pedwar 2017-18. Drwy drafod â'r Bwrdd Iechyd cefais sicrwydd y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r gwasanaeth atal twyll lleol, ill dau, yn rhoi sylw priodol i'r enghreifftiau cydweddu. Mae'r Bwrdd Iechyd i fod i ddarparu data i ymarfer nesaf yr NFI (NFI 2018-19) ym mis Hydref 2018.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd amrywiol yn erbyn fy argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ac erys angen i wella ei drefniadau ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn ein gwaith archwilio arall**

- 72 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cymysg wrth ymdrin ag argymhellion yng ngwaith asesu strwythuredig y llynedd. O'r 12 argymhelliad, mae dau wedi'u cwblhau ac mae saith ar waith, ond heb eu cwblhau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran tri argymhelliad.
- 73 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin â'm hargymhellion archwilio strwythuredig 2016, ystyriais hefyd effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i ymateb i'm hargymhellion archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio, sy'n cyfarfod bob 1-2 mis yn tracio argymhellion asesu allanol. Mae hyn yn cynnwys argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â'r rhai hynny o arolygiaethau eraill.
- 74 Eleni canfu fy nhîm fod trefniadau tracio argymhellion allanol yn ddigyswllt. Ceir adroddiad tracio ar wahân ar gyfer argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ac archwiliadau allanol eraill. Mae system dracio Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos pa bwyllgor fydd yn darparu sicrwydd ac yn monitro'r argymhellion. Serch hynny ni ddangosir cynnydd yn erbyn argymhellion unigol, ac nid oes dyddiad terfyn, a statws yr holl argymhellion yw 'parhaus'. Mae'r system dracio archwiliadau allanol yn feichus a dryslyd, Mae nifer o'r eitemau nad ydynt yn dangos dyddiadau cwblhau ac mae camau sydd wedi eu cwblhau yn dal i fod ar y system dracio.
- 75 Bydd diffyg trefniadau tracio argymhellion cadarn a chlir yn rhwystro monitro effeithiol ac yn rhwystro'r Bwrdd Iechyd rhag gallu nodi problemau allweddol sydd wedi eu nodi ar draws cyrff archwilio ac arolygu. Yn 2016, argymhellais fod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau trefniadau tracio ar gyfer argymhellion archwilio allanol, ond hyd yn hyn ni chymerwyd camau ynglŷn â'r argymhelliad hwn. Ychydig iawn o gynnydd sydd wedi ei wneud ond mae'r tîm llywodraethu corfforaethol yn nyddiau cynnar y broses o adolygu trefniadau tracio. Yn rhan o'r adolygiad hwn, mae'r tîm yn bwriadu adolygu'r polisi ar gyfer ymdrin ag adroddiadau a ddaw i law'r sefydliad, i sicrhau bod ganddo oruchwyliaeth ehangach o adolygiadau ac argymhellion allanol. Arweinir y gwaith hwn gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, ond fel y nodwyd **ym mharagraffau 56 and 62**, mae gennyf bryderon ynglŷn â'r capasiti o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol i gwblhau'r gwaith hwn.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r materion a godwyd yn fy adroddiad er budd y cyhoedd a amlygodd fethiannau llywodraethu mewn cysylltiad â dyfarnu contractau Adnoddau Dynol penodol a phenodi Cyfarwyddwr

- 76 Canfûm nifer o wendidau sylfaenol yn y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau wrth ddyfarnu tri contract ar gyfer gwasanaethau ymgynghori Adnoddau Dynol. Cyhoeddais adroddiad yn o'm canfyddiadau yn gyhoeddus ar 17 Gorffennaf 2017. Paratois yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 19 o Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn darparu ar gyfer sefyllfa pan fyddwn i'n credu y byddai hi er budd y cyhoedd i roi sylw cyhoeddus i fater sy'n dod i'm sylw wrth archwilio datganiadau ariannol archwiliadwy, y gallwn lunio adroddiad ar y mater hwnnw.
- 77 Cododd y mater dan sylw gyntaf yn 2016 wrth i mi archwilio datganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd. Wrth i'r gwaith o archwilio'r contractau ymgynghori fynd rhagddo, nodais faterion eraill penodol, a oedd yn fy marn i, er budd y cyhoedd i wybod amdanynt. Hyd yn hyn, dyma'r unig adeg y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi 'adroddiad er budd y cyhoedd' mewn cysylltiad â chorff GIG Cymru.
- 78 Prif ganfyddiadau'r adroddiad oedd:
- bod y ffordd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn caffael ac yn rheoli contractau ymgynghori Adnoddau Dynol a ddyfarnwyd i RKC Associates ymhell islaw'r safon y mae gan y cyhoedd yw hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus;
  - bod y ffordd y dyfarnwyd y contract ymgynghori Adnoddau Dynol i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn peryglu didwylledd y broses gaffael; a
  - bod y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates yn Gyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad ym mis Ebrill 2016 yn sylfaenol annigonol, yn ddiffygiol o ran ei thryloywder ac wedi ei chofnodi'n wael.
- 79 Yn sgil cyhoeddi fy adroddiad, rhoddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ystyriaeth i fy nghanfyddiadau, gyda thystiolaeth gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd. Rwy'n falch bod y Bwrdd Iechyd, ers cyhoeddi'r adroddiad, wedi ymateb yn gadarnhaol, a thrwy wneud hynny, wedi datblygu cynllun gweithredu manwl, ac yn gwneud cynnydd da o ran ei weithredu.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai trefniadau cadarnhaol, ond mae hefyd wedi nodi rhai cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

Mae gweithlu ac ystadau yn cefnogi nodau'r Bwrdd lechyd yn gynyddol, er bod gwybodeg yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny

80 Mae fy ngwaith Asesu Strwythurol wedi adolygu sut y rheolir nifer o ffactorau sy'n ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau yn [Arddangosyn 2](#).

**Arddangosyn 2: cynnydd wrth weithredu argymhellion yr archwiliad mewn meysydd gwasanaeth penodol.**

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Cynllunio'r gweithlu	<p>Mae dulliau o recriwtio, cadw a chefnogi'r broses o reoli'r gweithlu yn effeithiol ar y cyfan, ac er bod rhai agweddau ar hyfforddi a datblygu yn heriol, mae'r Bwrdd lechyd yn ymdrechu i fynd i'r afael â nhw.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd lechyd nifer o lwyddiannau recriwtio, er ei bod hi'n parhau yn anodd recriwtio rhai grwpiau proffesiynol ac arbenigeddau. Er hyn, mae'r gwariant ar asiantaethau yn isel. Rhoddodd y Bwrdd lechyd nifer o fentrau llwyddiannus ar waith i gefnogi cynhyrchiant y gweithlu ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol erbyn hyn.</p> <p>Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch hefyd yn lleihau. Fodd bynnag, mae trosiant staff yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae'r amser y mae'n ei gymryd i recriwtio hefyd yn uwch na'r cyfartaledd. Mae angen gwella cydymffurfiaeth â gwerthusiadau perfformiad a hyfforddiant gorfodol, gyda chyfraddau gwerthuso meddygol ac anfeddygol ill dwy yn is na'r targed o 85%. Mae gwaith ar y gweill i'w gwneud hi'n haws manteisio ar hyfforddiant ac, ers penodi Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad, bu mwy o bwyslais ar hyfforddiant a gwerthusiadau mewn adolygiadau rheoli perfformiad.</p>

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ystadau ac asedau	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ystadau. Mewn adolygiad archwiliad mewnol diweddar o sut y mae'n rheoli cydymffurfiant â gofynion statudol, cafwyd dyfarniad o 'sicrwydd rhesymol'.</p> <p>Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn graddol leihau, er bod y lefel o risgau sylweddol y mae'r Bwrdd lechyd yn eu hysgwyddo yn parhau i fod yn uchel, gyda'r rhan fwyaf o'r risg yn gysylltiedig â phrif safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu cyfres o gynlluniau rheoli ystadau sy'n egluro sut y mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu defnyddio'i ystâd dros y ddeng mlynedd nesaf.</p>
TGCh a defnyddio technoleg	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn wynebu sawl her o ran ei drefniadau ar gyfer defnyddio technoleg gwybodaeth, rhoi systemau TG cenedlaethol ar waith a sicrhau adnoddau priodol i ddarparu'r rhaglen strategol amlinellol ar gyfer gwybodeg.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu ei raglen strategol amlinellol ar gyfer gwybodeg ar gyfer 2016-2021 er nad oedd cyllid cyfalaf a referniw gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i ddarparu ar gyfer bwriadau'r rhaglen.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i fod â seilwaith systemau TG sy'n heneiddio ac mae angen iddo gael systemau TG etifeddol newydd. Bu'r Bwrdd lechyd yn buddsoddi yn unol â'i flaenoriaethau o dan ei gynllun cyfalaf "cadw'r golau ymlaen", er bod cyllid cyfalaf yn gyfyngedig. Bu'r buddsoddiadau hyn yn gymorth i gynnal systemau TG wrth aros am ddatblygiad y rhaglen TG cenedlaethol, er bod rhai o'r systemau yn debygol o fod heibio eu dyddiad 'diwedd oes' erbyn yr adeg y cyflwynir y systemau TG cenedlaethol.</p> <p>Mae'r lefel isel o fuddsoddi mewn seilwaith TG ac adnoddau gwybodeg yn cynyddu'r risg o fgythiadau posibl yn deillio o ymosodiadau seibr. Hyd yn hyn, nid oes gan y Bwrdd lechyd swyddog diogelwch TG penodol.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn mesur dangosyddion perfformiad allweddol parthed TG ond mae'r rhain yn canolbwyntio gan fwyaf ar y ddesg wasanaeth TG ac ymdrin â galwadau.</p>

Er bod y gwasanaeth radioleg yn cael ei reoli'n dda ar lefel weithredol, ceir risg o ran darparu'r gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol oherwydd diffyg cynllunio strategol a busnes, galw cynyddol, ôl-groniad o adroddiadau, cyfarpar sy'n heneiddio, a phroblemau wrth recriwtio a chadw aelodau staff

- 81 Canfu fy ngwaith ar wasanaethau radioleg fod gwasanaethau radioleg o fewn ac y tu allan i oriau ar gael yn rhwydd i gleifion, gyda system gadarn ar waith i sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu blaenoriaethu'n gywir. Er y bu gostyngiad yn yr amser y mae angen i gleifion aros am eu harchwiliad radioleg, erys problemau o ran cyflawni targedau amseroedd aros yn gyson. Er bod gwaith yn pentyrru, ni chaiff y gwaith o lunio adroddiadau ei anfon allan, ac ni fanteisir yn llawn ar radiolegwyr. Caiff perfformiad clinigol ei archwilio a'i drafod yn rheolaidd, ac fe roddir adborth cyson i staff. Fodd bynnag, mae pryderon ynglŷn â faint o staff sy'n rhan o hyn oherwydd materion ynglŷn â'u gallu i wneud hynny. Mae prosesau ar waith i fonitro a dysgu oddi wrth gamgymeriadau a digwyddiadau. Fodd bynnag, mae adborth gan gleifion a staff yn amlygu pryderon amgylcheddol a fu'n bodoli ers peth amser ac nad ydynt yn cael sylw.
- 82 Gwneir ymdrechion i geisio lleihau pwysau ar wasanaethau, ond mae datblygiadau clinigol a ffactorau allanol, megis galw gan ardaloedd bwrdd iechyd eraill ac ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd, yn parhau i gynyddu'r galw. Er bod canllawiau atgyfeirio clir yn bodoli, canfu fy nhîm nad oedd clinigwyr a oedd yn atgyfeirio yn ymwybodol ohonynt, ac er bod y gwasanaeth yn mynd ati mewn modd cadarnhaol i leihau atgyfeiriadau amhriodol, mae diffyg system e-gyfeirio yn risg. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth system dda i reoli rhestrau aros ac amseroedd apwyntiad.
- 83 Mae lefelau staffio yn y maes Radioleg wedi cynyddu ar gyfradd arafach na gweddill Cymru ac yn ychwanegol at hyn mae cymhlethdodau lleol a chenedlaethol sylweddol o ran recriwtio a chadw staff. Mae proffil y gweithlu radioleg ar y cyfan yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru, er bod cyfyngiadau ar y gymhareb staffio oherwydd natur drydyddol y gwasanaeth ac anawsterau oherwydd cymhlethdodau. Mae cyfyngiadau staffio yn llesteirio cyfleoedd hyfforddi ac mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael. O'i gymharu â gweddill Cymru, ceir mwy o sganwyr na'r cyfartaledd, sy'n gweithio dros oriau hirach, ac er bod potensial i fanteisio ar eu gwasanaeth dros y penwythnosau, fe allai hyn gostio mwy i'r gwasanaeth.
- 84 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth radioleg na chynllun gweithredol na chynllun gweithlu manwl. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i fynd i'r afael â hyn. Mae'r strwythur rheoli a'r llinellau atebolrwydd yn glir, ac mae gan y gwasanaeth gynrychiolaeth dda ar bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Bwrdd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gorrario o'i gymharu â'i gyllideb, ac nid yw wedi cyflawni ei darged o ran arbedion. Er bod adroddiadau perfformiad ariannol yn glir, nid yw gweithgareddau i adfer y sefyllfa wedi eu cynnwys. Er bod offer wedi cyrraedd diwedd ei oes, neu yn dynesu at hynny, a bod methiannau rheolaidd, nid oes rhaglen ar waith i gael offer newydd. Ar y cyfan, nid yw gwasanaethau TGCh radioleg yn gwasanaethu anghenion y Bwrdd Iechyd, ac



adolygir perfformiad radioleg yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol a rheolaethol. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r dangosfwrdd perfformiad a'i ddefnyddio i'w lawn botensial.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau ond mae'r perfformiad yn amrywiol ac erys risgiau mewn perthynas â chynaliadwyedd y gwasanaeth**

- 85 Canfu fy ngwaith nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ond mae'n bwriadu newid y gwasanaeth drwy gyfrwng cynllun gweithredu ac achos busnes newydd. Mae trefniadau da ar gyfer arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol o'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau; ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'r ffordd y mae'n monitro perfformiad meddygon teulu y tu allan i oriau ac yn dysgu o ddigwyddiadau, ond mae'r ymagwedd at archwiliadau clinigol ac adborth cleifion yn gyfyngedig.
- 86 Mae'r gwasanaeth wedi gwella ei gymysgedd sgiliau ond mae'n parhau i fod yn fregus oherwydd nid oes cynllun gweithlu a cheir problemau cyson o ran llenwi shifftiau. Mae gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau wedi lleihau, ac yn 2015-16, roedd gwariant yn y maes hwn y lleiaf fesul claf yng Nghymru. Ers ein gwaith maes mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau.
- 87 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn sawl ffordd i hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â gwasanaethau y tu allan i oriau ond mae lle i wella sut y mae'n cyfeirio cleifion drwy ei wefan a'r negeseuon ateb sydd ar ffonau meddygfeydd. Mae'r gwasanaeth yn ateb galwadau ynghynt nag unrhyw wasanaeth arall yn ne Cymru, ac er yr ymddengys na chaiff unrhyw alwadau eu terfynu, mae'n bosibl y ceir camgymeriadau yn y data. Mae cysylltu'n ôl â chleifion mewn modd amserol yn parhau i fod yn un o broblemau mwyaf ystyfnig y gwasanaeth, gyda pherfformiad yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Mae amseroldeb apwyntiadau ac ymweliadau cartref yn amrywiol o'i gymharu â pherfformiad cyfartalog Cymru. Mae problemau gyda chysondeb data yn ei gwneud hi'n anodd cymharu patrymau atgyfeirio ac er nad oes gan y gwasanaeth y tu allan i oriau gyfeiriadur gwasanaethau, mae ganddo brotocolau gydag adrannau brys.

**O ran trefniadau cynllunio rhyddhau, mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gwella cadarn, trefniadau rheoli perfformiad cryf ac mae'r perfformiad yn gwella ar y cyfan, ond mae lle i wella hyfforddiant aelodau staff ar wardiau a'r ymwybyddiaeth o bolisiau a gwasanaethau cymunedol**

- 88 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau clir gyda phartneriaid er mwyn gwella'r broses o gynllunio sut i ryddhau cleifion. Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau drafft datblygedig, a adolygwyd gyda phartneriaid. Fodd bynnag, nid yw cleifion a gofalwyr wedi bod yn rhan o'i adolygu. Mae'r

llwybrau rhyddhau cleifion wedi eu diwygio yn ddiweddar, ac maent yn gynhwysfawr ac yn rhan o'r polisi rhyddhau drafft.

- 89 Mae gan y Bwrdd lechyd adnoddau penodol ar gyfer rhyddhau cleifion. Mae'r rhain yn rhai aml-asiantaeth ac aml-ddisgyblaeth, ond maent ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig. Mae lle i wella hyfforddiant staff ac ymwybyddiaeth o bolisiau, llwybrau gofal ac argaeledd gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau cymunedol.
- 90 Mae llinellau atebolrwydd clir a chraffu cyson ar y perfformiad o ran cynllunio i ryddhau cleifion, sy'n cynnwys partneriaid. Mae aelodau'r Bwrdd ar y cyfan yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r perfformiad o ran cynllunio i ryddhau cleifion, gyda gwaith ar y gweill i ddatblygu ymhellach yr ystod o wybodaeth sydd ar gael. Mae perfformiad yn gwella, ond mae hi'n rhy fuan i wneud sylwadau ynglŷn ag a yw hyn yn gysylltiedig â gwelliannau mewn prosesau rhyddhau cleifion.

**Nid yw'r Bwrdd lechyd yn llwyddo i fonitro pob un o'm hargymhellion blaenorol yn effeithiol, fodd bynnag mae fy ngwaith dilynol wedi nodi bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion ar gyfer rheoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol**

- 91 Ynghyd ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd lechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm gwaith archwilio fel y trafodwyd ym mharagraffau **71-74**, rwyf wedi adolygu i ba raddau y gwneir cynnydd yn unol ag argymhellion yr archwiliad drwy drefniadau olrhain y Bwrdd lechyd ei hun.
- 92 Er bod y Pwyllgor Archwilio o'r farn bod y cynllun gweithredu cychwynnol ar adeg cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol, canfu fy ngwaith y gall y broses o roi ystyriaeth ddilynol i fy adroddiadau yn y pwyllgor mwyaf priodol fod yn araf, ac ni cheir adroddiadau ar y cynnydd diweddaraf bob amser. Yn rhannol, mae hyn oherwydd diddymu'r pwyllgor partneriaeth preifat-cyhoeddus a'r bwllch a ddilynodd hynny cyn sefydlu'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni newydd.
- 93 Pan gafwyd adroddiad ynghylch cynnydd, nid yw'n glir o'r diweddariadau i ba raddau y cwblhawyd fy argymhellion. Nid wyf felly wedi gallu dod i farn ynglŷn â chynnydd y Bwrdd lechyd o'i gymharu â fy argymhellion blaenorol, gan ddefnyddio ei drefniadau olrhain ei hun.
- 94 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd lechyd wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion yn deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol o'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r canfyddiadau o'r gwaith dilynol hwn wedi eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: cynnydd wrth weithredu argymhellion archwilio mewn meysydd gwasanaeth penodol

Maes gwaith dilynol	Canfyddiadau a chanfyddiadau archwilio allweddol
Diweddariad cynnydd o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2015, a, gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol (o dan gylch gwaith y Bwrdd Gofal Cynlluniedig), mae mewn sefyllfa dda i fodloni'r holl argymhellion.

Mae trefniadau comisiynu cydweithredol wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig ar gyfer y gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae'r trefniadau sydd wrthi'n ymsefydlu yn mynnu mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid

- 95 Canfu fy adolygiad o drefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig, megis datblygu'r model CAREMORE<sup>3</sup>. Fodd bynnag, mae strwythurau a swyddogaethau i sicrhau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yn ansicr. Canfûm fod lle i egluro swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwllans o ran perfformiad y gwasanaethau ambiwlans brys, cyllid a moderneiddio'r gwasanaeth. Ynghyd â hyn, er bod sefydlu'r Pwyllgor wedi cefnogi Cymru gyfan i berchnogi gwasanaethau ambiwlans brys, canfu fy nhîm bod angen i'r Pwyllgor wneud mwy i drawsnewid y gwasanaeth mewn gwirionedd. At hyn, mae diffyg eglurder a diben yn strwythur yr is-grŵp, sy'n ategu'r Pwyllgor, ac mae hyn yn effeithio ar bresenoldeb staff y Bwrdd Iechyd a gallu'r is-grwpiau i wneud cyfraniad ystyrlon.
- 96 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae'r cyflymder y mae'r byrddau iechyd yn ysgogi y newidiadau angenrheidiol i alluogi'r model i weithio yn ôl y disgwyl yn amrywio. Canfu fy ngwaith bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a'r byrddau iechyd yn barod ar y cyfan i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans, ond mae faint o berchnogaeth y mae byrddau iechyd yn ei deimlo yn amrywio o ran perfformiad gwasanaethau ambiwlans brys a moderneiddio llwybrau gofal, gyda'r prif bwyslais ar gamau olaf y llwybr gofal pan fo'r claf yn yr ambiwlans, megis trosglwyddo cleifion. Adroddais fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn ymateb yn briodol i'r trefniadau a nodir gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys. Fodd bynnag,

<sup>3</sup> Mae'r model CAREMORE® yn ddull comisiynu wedi ei lunio yng Nghymru. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf sy'n berchen ar ei nod masnachu cofrestredig, ar ran GIG Cymru.

mae cydymffurfiaeth byrddau iechyd â'r gofynion a nodir yn CAREMORE®, a'u dealltwriaeth ohonynt, yn amrywio.

- 97 Canfu fy ngwaith bod trefniadau comisiynu yn ategu rhai gwelliannau i wasanaethau ambiwlans brys. Mae cyflwyniad model ymateb clinigol newydd yn cefnogi partneriaid i gyflawni targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda'r posibilrwydd o welliannau perfformiad pellach gan fentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau cynlluniedig i wasanaethau a monitro perfformiad partneriaid bellach yn fwy cydnaws â Llwybr Gofal Cleifion Ambiwllans (y cyfeirir ato fel y model pum cam). Fodd bynnag, mae angen mwy o gysondeb rhwng byrddau iechyd ac mae hi'n rhy fuan i allu dweud a yw hyn yn cael effaith. Mae cyfres o fesurau mwy eang sydd wedi eu gwella'n sylweddol ac sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy gyfrwng y Dangosyddion Ansawdd Ambiwllans. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i ddeall deilliannau a phrofiadau cleifion yn llawn wrth dderbyn gofal ambiwlans brys.

#### Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

- 98 Canfu fy adolygiad o drefniadau cydweithredu rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Yr Ymddiriedolaeth) a byrddau iechyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd fod cydweithredu effeithiol o ran gwaith gwella iechyd yn ddibynnol ar arweinyddiaeth gydsyniol, nad yw bob amser yn amlwg. Yn y system iechyd y cyhoedd yn gyffredinol, mae ystod eang o bobl a sefydliadau yn cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Nid oes unrhyw sefydliad ar ei ben ei hun yn llwyr gyfrifol am wella iechyd a lles y boblogaeth, ond mae cyflawni hynny yn seiliedig ar gydweithio effeithiol.
- 99 Er nad yw hi efallai yn beth dymunol i ddynodi un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch priod swyddogaethau'r gwahanol randdeiliaid yn y system. Canfu fy ngwaith fod diffyg trafodaethau ystyrlon rhwng yr Ymddiriedolaeth, timau iechyd y cyhoedd lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Cymru ynghlŷn â phriod swyddogaethau, cyfrifoldebau a fframwaith cytunedig ynghlŷn â pha waith a wneir orau drwy gydweithio.
- 100 Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau effeithiol i sicrhau y ceir gwerth am arian o'r adnoddau a ddyrennir i dimau iechyd y cyhoedd lleol. Nid oes cyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd i drafod sut y defnyddir adnoddau i wella iechyd a lles ac a ydynt yn cyflawni'r budd arfaethedig. Canfu fy ngwaith hefyd fod diffyg dulliau cadarn o ran dyrannu neu newid adnoddau timau iechyd y cyhoedd lleol. Yn hytrach, ceir trafodaethau fel y bo angen pan ddaw swyddi'n wag.
- 101 Canfu fy ngwaith fod trefniadau ar waith i gefnogi staff sydd wedi eu lleoli mewn timau lleol i gofrestru'n broffesiynol, ond mae angen mwy o eglurder ynghlŷn â sut y defnyddir hyn i ddangos gallu proffesiynol a datblygiad gyrfa. Mae trefniadau newydd hefyd yn helpu i gryfhau prosesau arfarnu a chynllunio datblygiad

proffesiynol ond mae angen gwneud mwy i asesu anghenion datblygu cyfunol timau iechyd y cyhoedd lleol.

- 102 Nid yw mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r timau iechyd y cyhoedd lleol wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid oes ffordd safonol o rannu gwybodaeth ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda, a'r hyn y mae gwahanol aelodau'n ei wneud yn lleol a chenedlaethol. Canfu fy ngwaith hefyd fod diffyg trefniadau o ran cydlynu gwaith a ddatblygwyd neu a gyflawnwyd yn lleol neu yn genedlaethol, a rhoi gwybodaeth i'r un cyd-bartneriaid.
- 103 Rwyf wedi nodi ymateb cydweithredol y rheolwyr i'm canfyddiadau a baratowyd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Rwy'n bwriadu gwneud gwaith pellach yn 2018 i asesu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd uchod.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwiliad blynyddol diwethaf

Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mai 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehfin 2017
<b>Adroddiadau archwiliad perfformiad</b>	
Gwasanaethau Radioleg	Chwefror 2017
Comisiynu Gwasanaethau Ambwilans Brys	Ebrill 2017
Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau	Medi 2017
Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd y Cyhoedd Lleol	Hydref 2017
Diweddariad ar y cynnydd o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	Hydref 2017
Adolygu'r Cynlluniau i Ryddhau Cleifion	Tachwedd 2017
Asesiad Strwythuredig 2017	Ionawr 2018
<b>Adroddiadau eraill</b>	
Cynllun Archwilio 2017	Chwefror 2017

Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill

Adroddiad	Dyddiad cwblhau arfaethedig
Diweddariad cynnydd o gyfarpar meddygol	Chwefror 2018
Adolygiad o Ofal Sylfaenol	Mehfin 2018
Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig	Hydref 2018

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2017 y ffi archwilio arfaethedig o £420,652 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod peth gwaith yn dal ar y gweill, yn unol â'r ffi a nodwyd yn y cynllun.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

### Arddangosyn 6: risgiau archwilio sylweddol

Risgiau archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae gan y Bwrdd lechyd ddyletswydd i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol cadarn ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion.	Bydd fy nhîm archwilio yn profi cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad i sicrhau cywirdeb, rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion.	Adolygodd fy nhîm y cofnodion cyfrifyddu ac asesu rheolaethau mewnol ac ni chanfuwyd unrhyw faterion perthnasol i'w hadrodd.
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bodoli ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir bod hyn yn risg sylweddol yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio 240.	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li><li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a</li><li>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn ymwneud o bosibl â busnes arferol.</li></ul>	Adolygodd fy nhîm nifer o amcanion cyfrifyddu a sampl o drafodion gan gynnwys cofnodion. Ni chanfuwyd unrhyw faterion i'w hadrodd.
Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refereniw ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio 240.	Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffrydiau incwm y Bwrdd lechyd ac yn asesu p'un a oes risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll sy'n ymwneud â chydabod refereniw. Lle canfyddwn fod risgiau o'r fath yn bodoli, cynhelir profion penodol.	Ystyriodd fy nhîm archwilio ffrydiau incwm y Bwrdd lechyd. Ni chanfuwyd unrhyw risgiau ychwanegol.



Risgiau archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddulliau adrodd y Bwrdd lechyd a'n trafodaethau ag uwch aelodau o staff, ymddengys yn debygol iawn y bydd y Bwrdd lechyd yn gwario mwy na'i ddyraniad adnoddau referniw blynyddol. Dangosodd y sefyllfa ym mis 9 fod diffyg o £25.2 miliwn hyd hynny yn ystod y flwyddyn a rhagwelwyd y byddai diffyg o £30.9 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Yn unol â Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, diddymwyd y cyfyngiadau adnoddau blynyddol oedd ar fyrddau lechyd lleol o 1 Ebrill 2014. Yn hytrach, daeth 2014-15 a 2015-16 yn ddwy flynedd 'pontio' cyntaf o dan y ddyletswydd ariannol statudol newydd i beidio â mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad adnoddau mewn cyfnod treigl o dair blynedd. O'r herwydd, ni fyddid wedi caniatáu mynd y tu hwnt i unrhyw gyfyngiad adnoddau statudol yn y naill flwyddyn na'r llall.</p> <p>O flwyddyn ariannol 2016-17 ymlaen, mae gofynion Deddf 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol imi gymharu gwariant cronol y Bwrdd lechyd ar gyfer y flwyddyn gyfrifo ynghyd â'r ddwy flynedd flaenorol gyda'r cyfyngiadau adnoddau tair blynedd cyfatebol ar gyfer gwariant referniw a chyfalaf.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, a hefyd ar gyfer y sefyllfa gronol ar gyfer y cyfnod tair blynedd a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Bydd yr arolwg hwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol nas cywirwyd dros y tair blynedd hynny. Os yw'r Bwrdd lechyd yn methu â chyflawni'r cyfyngiadau adnoddau tair blynedd ar gyfer gwariant referniw a chyfalaf, byddwn yn disgwyl rhoi barn amodol ar reoleidd-dra yn fy natganiadau ariannol ar gyfer 2016-17. Byddwn hefyd yn disgwyl llunio adroddiad o sylwedd ar y datganiadau er mwyn egluro sail y farn honno a'r amgylchiadau y mae'n seiliedig arnynt.</p>	<p>Ni lwyddodd y Bwrdd lechyd i gyflawni ei ddyraniad adnoddau tair blynedd. Fel yr adroddwyd yn Adran 1 yr adroddiad hwn, sefydlais fy marn amodol ar reoleidd-dra felly ar ddatganiadau ariannol 2016-17.</p> <p>Lluniais adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol gan egluro perfformiad y Bwrdd lechyd yn unol â'i ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, a barn fy archwiliad.</p>

Risgiau archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae'r pwysau ariannol presennol sydd ar y Bwrdd lechyd, o ran ei wariant refeniw a chyfalaf, a'i wariant arian parod; yn cynyddu'r risg y gallai bod tuedd yn y dyfarniadau a'r amcanion rheoli er mwyn ceisio adrodd o fewn y cyfyngiadau ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn dynodi'r meysydd hynny o'r datganiadau ariannol lle maent yn credu y ceir tuedd tuag at fod yn rhagfarnlyd wrth adrodd, a phrofi'r archwiliadau yn fanwl lle bo'n briodol.</p>	<p>Adolygodd fy nhîm nifer o ddyfarniadau ac amcangyfrifon allweddol y rheolwyr. Ni chanfuwyd unrhyw faterion perthnasol i adrodd yn eu cylch.</p> <p>Soniwyd yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol fodd bynnag am gynnydd gwael parhaus y Bwrdd lechyd yn archwilio ac asesu cost arfaethedig ei hawliadau gofal iechyd parhaus 'cam 3'.</p>
<p>Mae risg ynglŷn â chyfrifo a gwneud datganiad ynghylch perfformiad tâl y Bwrdd lechyd o'i gymharu â'r targedau a nodir ym Mholisi Taliadau Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae rhagamcanion adrodd mis 9 y Bwrdd lechyd yn rhagweld pwysau sylweddol ar ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, gyda diffyg arian parod o £18.0 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gallai'r diffyg ariannol hwn o bosibl gynyddu'r amser y bydd yn ei gymryd i dalu credydwy ac effeithio ar berfformiad taliadau.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r datganiadau o dan Bolisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ac yn ystyried y pwysau arian parod ar darged gweinyddol y Bwrdd lechyd. Bydd archwiliwyr cydwasanaethau'r Bwrdd lechyd yn gwneud peth o'r gwaith archwilio hwn.</p>	<p>Dangosodd y datganiadau ariannol archwiliedig na lwyddodd y Bwrdd lechyd i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru, sy'n gofyn ar i'r Bwrdd lechyd dalu 95% o gredydwy o fewn 30 diwrnod i'r ddarpariaeth.</p> <p>O ran niferoedd, talodd y Bwrdd lechyd 59.7% o'i gredydwy oedd yn rhan o'r GIG, a 94% o'i gredydwy nad oeddent yn rhan o'r GIG, ymhen y targed o 30 diwrnod.</p> <p>Fel y gwneuthum yn y flwyddyn flaenorol, yn fy Adroddiad Archwiliad Datganiadau Ariannol, rwy'n egluro bod canrannau perfformiad-taliadau a ddatgelwyd wedi eu cam-ddatgan o bosibl oherwydd y ffordd y mae'r Bwrdd lechyd yn adrodd ynghylch anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch.</p>

Risgiau archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn heriol.</p> <p>Blwyddyn ariannol 2016-17 yw'r ail flwyddyn o weithredu trefn adrodd tair rhan Trysorlys EM sy'n seiliedig ar: Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r gofynion a'r posibiladau ar gyfer 2016-17, gyda gofynion eleni wedi eu nodi yn y drafft ymgynghorol presennol, sef Llawlyfr Cyfrifon 2016-17.</p> <p>Bydd angen i'r Bwrdd lechyd roi trefniadau priodol ar waith er mwyn paratoi'r adroddiad atebolrwydd ar yr un pryd â'r datganiadau ariannol a sicrhau y caiff papurau gwaith digonol eu cyflwyno i'w harchwilio yn amserol.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n agos gyda staff y Bwrdd lechyd er mwyn monitro cynnydd a cheisio datrys unrhyw faterion o ran amseru cyn gynted â phosibl fel y gellir cyflawni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon.</p> <p>Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Bwrdd lechyd i'w weld yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae angen i fy archwiliad adolygu'r datganiad llywodraethu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru. Yn rhan o fy ngwaith archwilio, byddaf yn adolygu'r datganiad i sicrhau ei fod yn gyson â chanlyniadau'r archwiliad, a fy nealltwriaeth a'm gwybodaeth i o'r Bwrdd lechyd.</p>	<p>Archwiliais yr Adroddiad Atebolrwydd, a chafwyd canlyniadau boddhaol. Yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, cydnabûm y bu rhywfaint o welliannau yn 2016-17, er i mi hefyd nodi'r angen i baratoi Adroddiad Atebolrwydd 2017-18 yn gynharach.</p>

Risgiau archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Caiff y cyfrifon blynyddol eu llunio o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r gofynion hyn, gan sicrhau ei fod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau ac y caiff risgiau a materion eu nodi, ac yr ymdrinnir â hwy'n briodol. Mae meysydd risg penodol yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amcangyfrifon, yn enwedig amcangyfrifon o'r ddarpariaeth gofal iechyd parhaus a gwariant gofal sylfaenol;</li> <li>• datblygiadau cyfalaf, â gofynion cyfrifyddu cymhleth;</li> <li>• trafodion sylweddol â phartïon cysylltiedig;</li> <li>• ystyried a chymeradwyo contractau gwerth mwy nag £1 miliwn; a</li> <li>• chywirdeb a chyflawnrwydd yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, gan gynnwys pecynnau ymadael a newidiadau a fu o ran Aelodau Gweithredol yn ystod y flwyddyn.</li> </ul>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd risg hyn, drwy gynnal profion penodol O ran yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, rydym yn ymwybodol y bu nifer o newidiadau yn ystod 2016-17 i swyddogaethau gweithredol y Bwrdd lechyd a'r swyddogion a benodwyd i swyddi penodol. Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r newidiadau hyn. Bydd y profion archwilio yn cynnwys gweld a yw'r awdurdodiadau priodol yn bodoli, ac a yw'r datgeliadau yn yr Adroddiad Taliadau yn gywir.</p>	<p>Asesais drefniadau'r Bwrdd lechyd a chynhaliats brofion priodol. Er y bu fy nghanfyddiadau yn foddhaol ar y cyfan, nodais nifer o argymhellion ar gyfer gwella yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.</p>

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)